

CONSTITUTION	Y CYFANSODDIAD
CODE OF PRACTICE	COD YMARFER
<p><i>1. The name of the Association</i></p>	<p><i>1. Enw'r Gymdeithas</i></p>
<p>The name of the Association shall be the Wales Association of SACREs (hereinafter called 'the Association')</p>	<p>Cymdeithas CYSAGau Cymru fydd enw'r Gymdeithas - (yma, "y Gymdeithas" fydd hi'n cael ei galw o hyn ymlaen)</p>
<p><i>2. The Aims of the Association</i></p>	<p><i>2. Amcanion y Gymdeithas</i></p>
<p>(i) to provide a forum in Wales for SACREs to discuss concerns and as necessary make representations to other bodies;</p>	<p>(i) ymorol bod fforwm yng Nghymru ar gyfer y CYSAGau, i drafod materion o bwys iddynt, ac i ddwyn achosion i sylw cyrff eraill pan fo gofyn;</p>
<p>(ii) to enable co-operation between LEA's and their SACREs and Agreed Syllabus Conferences in pursuing common interests in the development of the religious education curriculum and collective worship;</p>	<p>(ii) hwyluso cydweithredu rhwng Awdurdodau Addysg Lleol, eu CYSAGau a Chynadleddau Maes Llafur Cytunedig, o ran mynd ar drywydd diddordebau cyffredin ynglyn a datblygu cwricwlwm addysg grefyddol ac addoli ar y cyd;</p>
<p>(iii) to assist SACREs in fulfilling their responsibilities by the sharing of experience and expertise;</p>	<p>(iii) helpu'r CYSAGau i gyflawni eu gorchwylion trwy rannu profiad ac arbenigedd;</p>
<p>(iv) to undertake any other activities which may benefit religious education and collective worship in Wales.</p>	<p>(iv) ymroi i unrhyw weithgareddau eraill a ddichon fod o fudd i addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yng Nghymru.</p>
<p><i>3. Membership and duties</i></p>	<p><i>3. Aelodaeth a dyletswyddau</i></p>
<p>(i) Each SACRE in Wales is eligible to be a member of the Association.</p>	<p>(i) Mae pob un o GYSAGau Cymru'n gymwys i fod yn aelod o'r Gymdeithas.</p>
<p>(ii) Each SACRE shall be invited to pass a resolution recommending its LEA to support membership of the Wales Association of SACREs.</p>	<p>(ii) Bydd pob un o'r CYSAGau'n cael ei wahodd i basio penderfyniad yn argymhell bod ei A A Ll yn cymeradwyo ymaelodi a Chymdeithas CYSAGau Cymru</p>

<p>(iii) The Association shall meet three times annually.</p> <p>(iv) Extraordinary meetings of the Association may be called by the Chairperson or at the request of a member SACRE. The Chairperson, in consultation with the officers, may alter arrangements for meetings of the Association in an emergency.</p> <p>(v) Each member SACRE shall be entitled to send up to four representatives, which may include professional representation, to meetings. Each SACRE will be entitled to one vote.</p> <p>(vi) A meeting of the Association shall be deemed to be quorate when not fewer than one third of member SACREs are represented.</p> <p>(vii) Any proposal to amend the Constitution shall be communicated to SACREs at least four months prior to the AGM at which any such amendment will be considered. The AGM shall be held as part of the Association's summer meeting.</p> <p>(viii) The Association can if it so wishes invite bodies to have observer status in the Association. Such observers can only speak with the permission of the Chairperson.</p> <p>(ix) At a meeting of the association, any members of the SACRE, whose LEA or Council is hosting the meeting, shall be entitled to</p>	<p>(iii) Bydd y Gymdeithas yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn.</p> <p>(iv) Gall cyfarfodydd arbennig o'r Gymdeithas cael eu cynnal ar alwad y Cadeirydd neu ar alwad CYSAG sy'n aelod o'r Gymdeithas. Bydd modd i'r Cadeirydd, wedi ymgynghori a'r swyddogion eraill, newid y trefniadau ar gyfer cyfarfodydd y Gymdeithas os digwydd achos brys.</p> <p>(v) Bydd gan bob CYSAG sy'n aelod hawl i anfon hyd at bedwar cynrychiolydd, a ddichon gynnwys cynrychiolaeth broffesiynol yn eu mysg. Bydd gan bob un o'r CYSAGau hawl i un bleidlais.</p> <p>(vi) Bydd cyfarfod o'r Gymdeithas yn cael ei gyfrif yn un a chworwm iddo pan na fo dim llai na thraean o'r CYSAGau sy'n aelodau yn cael eu cynrychioli.</p> <p>(vii) Os bydd bwriad o gwbl i newid y cyfansoddiad bydd raid rhoi gwybod i'r CYSAGau o leiaf bedwar mis cyn y CCB a fydd yn rhoi ystyriaeth i unrhyw newid felly. Bydd y CCB yn cael ei gynnal yn rhan o gyfarfod haf y Gymdeithas.</p> <p>(viii) Os bydd yn dymuno, bydd modd i'r Gymdeithas wahodd cyrff i feddu swyddogaeth sylwedydd y tu mewn i'r Gymdeithas. Dim ond os bydd y Cadeirydd yn caniatáu y caiff sylwedyddion o'r fath ddweud gair.</p> <p>(ix) Bydd hawl gan unrhyw aelodau o'r CYSAG sydd a'u AAL neu Gyngor yr un sy'n croesawu'r cyfarfod hwnnw i fod yno fel sylwedyddion.</p>
--	--

<p>attend the meeting as observers.</p> <p>4. <i>Officers of the Association</i></p> <p>(i) These shall be elected and / or re-elected at the AGM and shall comprise: (a) the Chairperson (b) the Secretary (d) the Assistant Secretary (e) the Treasurer). The member SACRE to which the Secretary belongs shall normally be responsible for providing secretarial support during the Secretary's term of office. No one SACRE may provide more than one officer in any one year. No one Chairperson may hold office for more than two consecutive years. When a Chairperson ceases to hold that office the Vice Chairperson shall succeed to it, subject to the requirement in para. (4ii).</p> <p>(ii) If an officer is no longer a member of or associated with a SACRE. He or she shall cease to hold that office immediately. A replacement will be appointed at the next meeting and will serve until the AGM. If there is urgent need for a replacement the Executive Committee is empowered to make an appointment which will be effective until the next meeting of the Association.</p> <p>(iii) There shall be an Executive Committee, which shall consist of the following:</p> <p>a) the Officers, who shall be</p> <p>i) a Chairperson</p> <p>ii) a Vice-chairperson</p> <p>iii) a Secretary</p> <p>iv) an Assistant Secretary, and</p> <p>v) a Treasurer</p>	<p>4. <i>Swyddogion y Gymdeithas</i></p> <p>(i) Bydd y rhain yn cael eu hethol a/neu eu hail-ethol yn y CCB, sef</p> <p>(a) y Cadeirydd (b) yr Is-Gadeirydd</p> <p>(c) yr Ysgrifennydd</p> <p>(ch) yr Ysgrifennydd Cynorthwyol</p> <p>(d) y Trysorydd. Bydd y CYSAG y mae'r Ysgrifennydd yn perthyn iddo yn gyfrifol fel arfer am roi cymorth ysgrifenyddol yn ystod tymor yr Ysgrifennydd yn y swydd. Ni chaiff yr un CYSAG gyflenwi rhagor nag un swyddog yn ystod yr un flwyddyn. Ni chaiff dim un Cadeirydd gadw'r swydd am ragor na dwy flynedd yn olynol. Pan ddaw dymor y Cadeirydd yn y Gadair i ben bydd yr Is-Gadeirydd yn dod yn Gadeirydd, cyhyd ag y ganiateir hyn gan baragraff 4(ii).</p> <p>(ii) Os nad yw swyddog bellach yn aelod mewn CYSAG nac yn dal dim cysylltiad chwaith bydd yn gorfod rhoi'r gorau i'w swydd ar unwaith. Bydd rhywun yn cael ei benodi yn ei le yn ystod y cyfarfod dilynol, a bydd yn gwasanaethu tan y CCB. Os oes angen llenwi'r swydd ar unwaith byd hawl gan y Pwyllgor Gwaith i wneud penodiad dros dro - tan cyfarfod nesaf y Gymdeithas.</p> <p>(iii) Fe fydd Pwyllgor Gwaith, a fydd yn cynnwys y canlynol:</p> <p>a) y Swyddogion, sef</p> <p>i) Cadeirydd</p> <p>ii) Is-gadeirydd</p> <p>iii) Ysgrifennydd</p> <p>iv) Ysgrifennydd Cynorthwyol, a</p> <p>v) Trysorydd</p>
--	--

<p>b) six members elected from representatives of member SACREs other than those from which the Chairperson and Vice-chairperson have been nominated</p> <p>c) the immediate past Chairperson</p> <p>d) the immediate past Secretary</p> <p>e) a representative of NAPfRE</p> <p>f) WASACRE's representative to the RE Council of England and Wales</p> <p>With the exception of the Secretary, Assistant Secretary and Treasurer no one SACRE may provide more than one member of the executive in any one year. Elected Members of the Executive, subject to the requirements of para 4(ii) and 4(v) shall serve for a period of three years, according to a rota whereby two of their number shall complete their period of office each year.</p> <p>The Chairperson shall have the right to invite to a meeting of the Executive Committee such a person or persons who in his/her opinion has a contribution to make towards the Agenda of that meeting. Such an invitee shall have the right to speak and be heard, but shall not have the right to vote on any matter on which a vote is called for.</p> <p>(iv) The Executive Committee will only have executive powers which have been delegated to them at a meeting of the Association. The quorum shall be five and the majority vote will count.</p> <p>(v) If a member of the Executive is no longer a member of or associated with a SACRE, he or she will cease to be a member of the Executive. The SACRE which he or she represented will be entitled to</p>	<p>b) chwech o aelodau wedi eu hethol o blith cynrychiolwyr aelod-GYSAG'au ar wahân i'r rhai yr enwebwyd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ganddynt</p> <p>c) y cyn-Gadeirydd diweddaraf</p> <p>d) y cyn-Ysgrifennydd diweddaraf</p> <p>e) cynrychiolydd o NAPfRE</p> <p>f) cynrychiolydd CCYSAGC ar Gyngor AG Cymru a Lloegr</p> <p>Ac eithrio'r Ysgrifennydd, yr Ysgrifennydd Cynorthwyol a'r Trysorydd, ni chaiff unrhyw un CYSAG ddarparu mwy nag un aelod o'r Pwyllgor Gwaith mewn unrhyw un flwyddyn. Bydd Aelodau Etholedig o'r Pwyllgor Gwaith, yn amodol ar ofynion paragraffau 4(ii) a 4(v), yn gwasanaethu am gyfnod o dair blynedd, yn ôl trefn drwy'r hon y bydd dau ohonynt yn cwblhau eu cyfnod yn y swydd bob blwyddyn.</p> <p>Bydd gan y Cadeirydd yr hawl i wahodd i gyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith unrhyw berson neu bersonau sydd, yn ei farn ef/hi, â chyfraniad i'w wneud at Agenda'r cyfarfod hwnnw. Bydd gan berson gwahoddedig o'r fath yr hawl i siarad a chael gwrandawriad, ond ni chaiff yr hawl i bleidleisio ar unrhyw fater y gelwir am bleidlais arno.</p> <p>iv) Dim ond pwerau gweithredol sydd wedi eu dirprwyo iddo mewn cyfarfod o'r Gymdeithas fydd gan y Pwyllgor Gwaith. Pump fydd yn gwneud cworwm a bydd pleidlais fwyafrif yn sefyll.</p> <p>(v) Os nad yw aelod o'r Pwyllgor Gwaith bellach yn aelod o GYSAG nac yn dal dim cysylltiad chwaith bydd yn peidio a bod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith. Bydd hawl gan y CYSAG y bu'n ei gynrychioli i enwebu aelod yn ei lle/le ar gyfer y Pwyllgor</p>
--	---

<p>nominate a replacement member of the Executive, who will serve until the AGM.</p> <p>(vi) In the absence of the Chairperson, the Vice Chairperson, if present, shall take the Chair. Otherwise the first business of the meeting shall be to elect a member to Chair for that meeting. However, if the Chairperson or Vice Chairperson arrives during the meeting, the Vice Chairperson, or the member in the Chair shall relinquish it once the item of business in hand has been completed.</p> <p><i>5. Subscription and Finance</i></p> <p>(i) The Association’s financial year shall be the financial year, i.e. it shall run from April 1st in any year until March 31st the following year.</p> <p>(ii) There shall be an annual subscription to be determined at the AGM.</p> <p><i>6. Procedures</i></p> <p>(i) (a) The Chairperson will move “that the minutes of the last meeting be signed as an accurate record”.</p> <p>(b) The only part of the minutes which can be discussed is their accuracy. Any question about their accuracy must be raised by motion and as soon as it has been dealt with the Chairperson is authorized to sign the minutes.</p> <p>(ii) Any member SACRE may include an item on the Agenda</p>	<p>Gwaith a fydd yn gwasanaethu tan y CCB.</p> <p>(vi) Os na fydd y Cadeirydd yn bresennol, bydd yr Is-Gadeirydd yn eistedd yn y gadair. Os na fydd yr Is-Gadeirydd yno gorchwyl gyntaf y cyfarfod fydd ethol aelod i’r Gadair ar gyfer y cyfarfod hwnnw. Sut bynnag, os bydd y Cadeirydd neu’r Is-Gadeirydd yn cyrraedd yn ystod y cyfarfod, bydd yr aelod sydd yn y Gadair yn symud gyda byth ag y bydd yr eitem o dan sylw wedi dod i ben.</p> <p><i>5. Tanysgrifiad a Chyllid</i></p> <p>(i) Y flwyddyn ariannol fydd blwyddyn ariannol y Gymdeithas, h y, o Ebrill 1 y flwyddyn honno hyd at Fawrth 31 y flwyddyn wedyn.</p> <p>(ii) Bydd tanysgrifiad blynyddol a fydd yn cael ei bennu yn y Cyfarfod Blynyddol.</p> <p><i>6. Y Trefniadau</i></p> <p>(i) (a) Bydd y Cadeirydd yn dwyn cynnig gerbron “bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn cael eu llofnodi fel cofnod cywir”.</p> <p>(b) Yr unig agwedd ar y cofnodion y bydd modd ei thrafod fydd eu cywirdeb. Bydd raid i unrhyw gwestiwn ynglyn a’u cywirdeb gael ei godi trwy ddwyn cynigiad gerbron, a chyn gynted ag y bydd y mater wedi ei setlo bydd gan y Cadeirydd hawl i lofnodi’r cofnodion.</p> <p>(ii) Bydd modd i unrhyw GYSAG sy’n aelod gynnwys eitem ar agenda</p>
--	--

<p>for meetings of the association without the requirement for it to be seconded. Any motion moved at the meeting must be seconded.</p> <p>(iii) In the event of a vote being required on any proposal each member SACRE shall have one vote and a decision reached by a simple majority. The Chairperson will have a casting vote.</p> <p>(iv) Meetings and correspondence shall be conducted bilingually.</p> <p>(v) Any other matters, of which notice has been given, may be added by the Chairperson.</p>	<p>cyfarfodydd y Gymdeithas heb fod gofyn cael eilydd. Bydd raid sicrhau eilydd ar gyfer unrhyw gynigiad sy'n cael ei ddwyn gerbron y cyfarfod.</p> <p>(iii) Os digwydd bod raid cael pleidleisio yn achos unrhyw gynigiad bydd gan bob un CYSAG sy'n aelod un bleidlais a phenderfyniad yn cael ei wneud trwy fwyafrif syml. Bydd gan y Cadeirydd bleidlais fwrw.</p> <p>(iv) Bydd y cyfarfodydd a'r gohebu'n cael eu cynnal yn ddwyieithog.</p> <p>(v) Bydd modd i'r Cadeirydd ychwanegu unrhyw faterion eraill ar yr amod bod rhybudd wedi cael ei roi ynglyn a hwy.</p>
--	---

**CODE OF PRACTICE FOR THE
CONDUCT OF ELECTIONS**

The following Code of Practice is proposed for the conduct of elections-:

- (a) Nominations for election shall be made in writing and shall reach the Secretary before March 1st.
- (b) The person(s) making a nomination must ensure that the person nominated is willing to serve.
- (c) The Secretary shall invite all persons nominated to supply a paragraph (some 100 words) about themselves – to reach the Secretary within fourteen days.
- (d) The Secretary shall send a list of those nominated, together with the paragraphs provided, to reach each SACRE before April 1st. This should allow opportunity for each SACRE to consider at its summer meeting how to cast its vote.

**COD YMARFER AR GYFER
CYNNAL ETHOLIADAU**

Cynigir y Cod Ymarfer canlynol ar gyfer cynnal etholiadau:-

- (a) Rhaid i enwebiadau ar gyfer etholiad gael eu gwneud ar bapur, a rhaid iddynt gyrraedd yr Ysgrifennydd cyn Mawrth 1^{af}.
- (b) Rhaid i'r sawl sy'n gwneud enwebiad sicrhau bod y sawl sy'n cael ei h/enwebu'n fodlon gwasanaethu.
- (c) Bydd yr Ysgrifennydd yn gwahodd pob unigolyn a enwebwyd i ddarparu paragraff (rhyw 100 o eiriau) amdano/amdani ei hun — i gyrraedd yr Ysgrifennydd o fewn pedwar diwrnod ar ddeg.
- (d) Rhaid i'r Ysgrifennydd anfon rhestr o'r rhai a enwebwyd, ynghyd â'r paragraffau y maent wedi eu darparu, i gyrraedd pob CYSAG cyn Ebrill 1^{af}. Dylai hyn roi cyfle i bob CYSAG ystyried, yn ystod ei chyfarfod haf, sut y mae am fwrw ei phleidlais.